**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, on Dydd Mawrth, 26ain Tachwedd, 2019 at 10.00 am**

**PRESENT:** Cynghorydd Sirol B. Strong (Cadeirydd)
Cynghorydd Sirol J. Higginson (Is-gadeirydd)

Cynghorydd Sirol: S. Howarth, A. Easson, M.Lane, R.Roden, J.Treharne, R. Edwards, D. Evans, L. Guppy, A. Webb

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| David Jones | Head of Public Protection |
| Linda O'Gorman | Principal Licensing Officer |
| Ben Davies | Solicitor |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Dim.

2. **Deddf Trwyddedu 2020 Datganiad Polisi**

Fe wnaethom ystyried y Polisi Trwyddedu Drafft 2020 cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w fabwysiadu.

Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Yr ydym ar hyn o bryd yn y cyfnod ymgynghori. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, bydd yr adroddiad yn cael ei ailgyflwyno i'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio a fydd yn cynnwys unrhyw faterion sydd wedi'u codi yn ystod y cyfnod hwn i'w hystyried gan y Pwyllgor.

- Gan mai dogfen bolisi yw hon, gellir ei hadolygu drwy gydol y cyfnod o bum mlynedd i fynd i'r afael â mân faterion. Fodd bynnag, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion o bwys, byddai angen cyfnod o ymgynghori pellach.

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynglŷn ag eitem 21.2 o'r Polisi, nodwyd y gallwch gael hysbysiad digwyddiadau dros dro 10 diwrnod gwaith cyn digwyddiad neu gael hysbysiad digwyddiad dros dro hwyr, sef pum diwrnod gwaith cyn y digwyddiad. Byddai geiriad yr adran hon o'r ddogfen yn cael ei ddiwygio i'w wneud yn fwy cyfeillgar i'r defnyddiwr.

- Bydd pob deiliad trwydded yn derbyn llythyr yn cadarnhau bod y polisi'n mynd trwy gyfnod ymgynghori. Bydd y wybodaeth hon ar gael hefyd i'w gweld ar wefan Cyngor Sir Fynwy. Bydd hysbysiadau hefyd yn cael eu codi yn Neuadd y Sir, Brynbuga ac yn y Siopau un Stop o fewn y Sir yn hysbysu'r cyhoedd bod y polisi'n cael ei ymgynghori.

Fe wnaethom nodi'r adroddiad;

3. **I gadarnhau ac i arwyddo cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, on Dydd Mawrth, 26ain Tachwedd, 2019 at 10.00 am**

Cafodd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio a gynhaliwyd ar 15fed Hydref 2019 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

Wrth wneud hynny, cafwyd y diweddariadau canlynol:

**Cofnod 2 - Masnachu ar y Stryd yn y Fenni**

Nodwyd na fyddai'r Adran Ystadau yn cymryd cyfrifoldeb dros Ganiatadau Masnachu Stryd Bloc o fis Chwefror 2020. Felly, bydd yr Adran Drwyddedu yn cynnal trafodaethau â Chlerc Cyngor Tref y Fenni gyda'r bwriad o asesu a allai'r Cyngor Tref wneud hyn.

Byddai'r Adran Drwyddedu hefyd yn ymchwilio i unrhyw oblygiadau cost ychwanegol i ddigwyddiadau mawr, fel Gŵyl Fwyd y Fenni, gyda'r bwriad o sicrhau bod y costau hyn yn ddichonadwy ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Cofnod 3 – cais am drwyddedu Tuk Tuk fel Cerbyd Hurio Preifat**

Byddai'r mater hwn yn cael ei ymchwilio ymhellach gydag awdurdodau lleol sydd wedi rhoi trwyddedau ar gyfer cerbydau Tuk Tuk ynghylch unrhyw faterion gweithredu a allai fod wedi'u profi. Hyd yma, nid oes unrhyw ymatebion wedi dod i law.

Trefnir taith mewn Tuk Tuk a fydd yn cynnwys Swyddog Trwyddedu a Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio er mwyn asesu materion diogelwch posib y cerbyd.

4. **Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

Dydd Mawrth 14eg Ionawr 2020 am 10.00am.

**The meeting ended at 10.21 am.**